# Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (FFIN SIROL POWYS/SIR GAERFYRDDIN I'R DRENEWYDD, POWYS) (CYFYNGIADAU A GWAHARDDIAD TRAFFIG DROS DRO) 2013

MAE GWEINIDOGION CYMRU wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw ar gefnffordd yr A483 rhwng ffin Powys/Sir Gaerfyrddin a'r Drenewydd, Powys.

Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn weithredol yn ysbeidiol o 7 Hydref 2013 hyd 20 Rhagfyr 2013 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Disgwylir mai dim ond rhwng 08:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch y bydd y gwaith yn digwydd. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am y cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn cael ei arddangos tua 2 wythnos cyn i'r gwaith ddechrau.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. Gosod terfyn cyflymder o 40 mya, 30 mya neu 10 mya rhwng ffin sirol Powys/Sir Gaerfyrddin, 350 o fetrau i'r de-orllewin o'r fynedfa i'r eiddo a elwir Bylchau a'r gyffordd â'r A489 ar Ffordd Dolfor, y Drenewydd. Dim ond yn ystod gwaith confoi y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys.

ii. Gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rheini a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag goddiweddyd pan fydd gwaith confoi yn digwydd.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhag-weld.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Dros Dro/ 2013).

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru.

# A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

## THE A483 TRUNK ROAD (POWYS/ CARMARTHENSHIRE COUNTY BOUNDARY TO NEWTOWN, POWYS) (TEMPORARY TRAFFIC RESTRICTIONS AND PROHIBITION) ORDER 2013

THE WELSH MINISTERS have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake maintenance works on the A483 trunk road between the Powys/Carmarthenshire border and Newtown, Powys.

It is expected that the restrictions and prohibition will operate intermittently from 7 October 2013 until 20 December 2013 or until the temporary traffic signs are permanently removed. The works are only expected to take place between 08:00 hours and 18:00 hours. Advance notice of the restrictions and prohibition will be displayed approximately 2 weeks before the start of works.

The effect of the Order is to temporarily:

i. Impose a 40 mph, 30 mph or 10 mph speed limit between the Powys/Carmarthenshire county boundary, 350 metres south west of the access to the property known as Bylchau and the junction with the A489 at Dolfor Road, Newtown. The 10 mph speed limit will only apply during convoy working.

ii. Prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from overtaking whilst convoy working is in force.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 12 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work is required due to unforeseen circumstances.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.wales.gov.uk (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2013).

**M D BURNELL**
Transport, Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE